



GRANTIAU CYHOEDDI CYMRAEG

CANLLAWIAU AC AMODAU

TALIADAU AM DDEUNYDD GWELEDOL – ARIAN A (ac ARIAN B)

A CANLLAWIAU

1 AMCANION A CHEFNDIR

Amcan y Cynllun Taliadau am Ddeunydd Gweledol a Dylunio yw galluogi cyhoeddwr i gyhoeddi llyfrau o'r safon uchaf trwy gomisiynu deunydd gweledol a dylunio gwreiddiol ar gyfer llyfrau darluniadol sydd ag apêl eang iddynt, i oedolion ac i blant. Gall tâl am ddeunydd gweledol olygu tâl am ddarluniau a ffotograffau gwreiddiol neu dâl hawlfraint am ddefnyddio darluniau neu ffotograffau sy'n bod eisoes.

2 CYMHWYSTER

Pwy sy'n gymwys i ymgeisio?

Mae'r cynllun yn agored i gyhoeddwr sy'n gymwys i dderbyn grantiau cyhoeddi Cyngor Llyfrau Cymru.

Ym mhob achos, y cyhoeddwr fydd yn gwneud cais i'r Cyngor Llyfrau, nid y darlunydd/ffotograffydd/dylunydd. Os oes gan ddarlunydd/ffotograffydd/dylunydd ddiddordeb yn y cynllun, dylai gysylltu â chyhoeddwr.

Pa lyfrau sy'n gymwys i dderbyn cefnogaeth?

Mae pwyslais y cynllun hwn ar sicrhau fod llyfrau Cymraeg gwreiddiol, sydd wedi derbyn grantiau awdur CLLC, yn cael eu darlunio a'u dylunio i'r safon uchaf posibl.

Diffinnir llyfrau Cymraeg gwreiddiol ac addasiadau fel a ganlyn:

Gwreiddiol: llyfr newydd sydd heb ymddangos ar unrhyw ffurf arall ac sydd wedi ei gomisiynu a'i ysgrifennu'n wreiddiol gan awdur sy'n gweithio yn Gymraeg, ac yn cael ei ddarlunio a'i ddylunio am y tro cyntaf fel cyfrol Gymraeg. Gall cyfieithiad / addasiad i'r Saesneg ymddangos yn fuan wedyn.

Addasiad: iaith y testun gwreiddiol sy'n pennu os yw llyfr yn addasiad, boed y testun hwnnw wedi ei gyhoeddi ai peidio.

Gan amlaf mae addasiad yn llyfr a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg neu unrhyw iaith arall a'i addasu / gyfieithu i'r Gymraeg. Mae cyhoeddwr Cymraeg wedi talu trwydded i'r cyhoeddwr gwreiddiol am yr hawl i gyfieithu / addasu, weithiau fel rhan o gyd-argraffiad rhyngwladol. Ni ellir cyhoeddi testun gwreiddiol a dderbynnir gan y cyhoeddwr yn Saesneg sydd angen gwaith addasu a chyfieithu sylweddol, fel llyfr Cymraeg gwreiddiol.

Dylid cofio, felly, nad yw addasiadau yn gymwys i dderbyn grantiau A Gweledol. Os yw llyfr wedi ei addasu dylai'r addasydd / gyfieithydd gael ei ch/gydnabod felly ar y clawr.



Llyfrau Plant megis llyfrau stori-a-llun, casgliadau o chwedlau, casgliadau o straeon amser gwely, llyfrau ABC, llyfrau rhifo, llyfrau anrheg, llyfrau am arwyr Cymru ayyb. Yn achos llyfrau stori-a-llun, mae'n rhaid i'r stori fod yn un wirioneddol dda, sy'n haeddu triniaeth uchelgeisiol.

Llyfrau Oedolion: megis llyfrau anrheg, llyfrau ffeithiol.

Bydd gwaith unrhyw ddarlunwyr neu ffotograffwyr/dylunwyr a gomisiynir yn rhan o 'awduraeth' y llyfr.

Cloriau poblogaidd fyddai'n elwa o'r buddsoddiad.

Cloriau Llyfrau Oedolion Ifanc

Gellir gwneud cais A Gweledol yn benodol ar gyfer cloriau llyfrau Oedolion Ifanc, hyd yn oed os na dymunir gwneud cais ar gyfer gwaith darlunio/dylunio cynnwys y llyfr. Gall y cais fod ar gyfer clawr yn unig, gellir cynnwys y clawr fel rhan o gais ehangach neu gellir cyflwyno dau gais ar wahân. Gellir gwneud cais am hyd at £500 i wella ansawdd cloriau nofelau Oedolion Ifanc – hynny yw cynnwys pumed lliw, ei foglynnu (*emboss*), neu gynnwys papur euraidd. Bydd gofyn gwneud cais penodol yn egluro'r rheswm dros ddewis y gyfrol honno a'r darlunydd/dylunydd hwnnw/honno a dylid cynnwys copi o'r clawr arfaethedig. Bydd gofyn bod y gwaith yn cael ei gyflawni yn amserol ac o fewn canllawiau cyflwyno'r clawr ar Gwales.

Cloriau caled

Gellir gwneud cais am hyd at £750 i rwymo cyfrol boblogaidd, megis cyfrol bwrdd coffi, mewn clawr caled os oes modd dangos bod hynny'n hanfodol i'r gyfrol honno elwa'n sylweddol ar y buddsoddiad. Dylid dangos y gwahaniaeth fyddai'r buddsoddiad yn ei wneud i werthiant ac elw'r gyfrol yn ogystal â'i hymddangosiad, a chynnwys copi o'r clawr arfaethedig.

Cyffredinol: disgwylir rhediad argraffu o 1,000 copi o leiaf.

3 Y GRANT

- Yr uchafswm y gellir ceisio amdano ar gyfer un llyfr yw £8,000, a gall hyn gynnwys taliadau am luniau/ffotograffau a thâl am ddylunio.
- Dylai cyhoeddwr drafod â phob dylunydd / ffotograffydd / darlunydd er mwyn cael gwybod os oes ceisiadau eraill ar y gweill ar eu cyfer. Mae'n bosibl iddynt weithio ar fwy nag un llyfr a noddir ar yr un pryd, ond ni all cyfanswm yr holl daliadau o fewn un flwyddyn fod yn fwy na £15,000.
- Caniateir i gyhoeddwyr sydd â chyllideb Arian-B flynyddol ddefnyddio cyfran o'r arian ar gyfer taliadau cymharol fychan am waith gweledol, ond ni ddylai'r cyfanswm a ddefnyddir ar gyfer hyn fod yn fwy na thua 10% o'r cyfan o'r gyllideb yn flynyddol.



4 **BLAENORIAETHAU A MEINI PRAWF AR GYFER CLORIANNU CEISIADAU DAN ARIAN-A**

Rhoddir blaenoriaeth i'r canlynol:

- llyfrau lliwgar, deniadol sy'n debyg o apelio at farchnad eang, yn enwedig llyfrau ffeithiol i oedolion a phobl ifanc;
- deunydd ag iddo ogwydd Cymreig;
- llyfrau storïol a ffeithiol ar gyfer plant.
- llyfrau poblogaidd sy'n gynrychioliadol o ran amrywiaeth cymdeithas a chydag ystyriaeth wedi ei roi i leisio profiadau bywyd awduron du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, yn ogystal ag eraill gyda'r priodoleddau a amddiffynnir yn neddf Cydraddoldeb 2010.
- croesewir yn benodol ymdrechion i ddatblygu dylunwyr a darlunwyr newydd yn arbennig felly o'r cefndiroedd a nodir uchod.

Cloriennir ceisiadau yn ôl y meini prawf canlynol:

- safon gwaith yr arlunydd/ffotograffydd/dylunydd;
- safon y cyhoeddwr o ran safon eu gwaith cynhyrchu;
- safon y testun;
- apêl debygol y deunydd ac felly'r gwerthiant tebygol.

Dylid cofio hefyd fod datblygu doniau o gefndiroedd sy'n draddodiadol yn cael eu tangynrychioli yn y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru yn flaenoriaeth i'r Cyngor, a bod hynny yn cynnwys darlunwyr, dylunwyr a ffotograffwyr.

5 **SUT A PHRYD I YMGEISIO**

- Rhaid ymgeisio ar y ffurflen gais, sydd i'w chael o'r cyfeiriad ar ddiwedd y ddogfen hon.
- Dyfernir y grantiau hyn trwy broses ymgeisio unigol. (Arian A)
- Rhaid anfon samplau o waith gan yr arlunydd/ffotograffydd/dylunydd gyda'r cais. Ar ôl dyfarnu'r grant, ni ellir newid artist, boed yn arlunydd, ffotograffydd neu ddylunydd, heb ganiatâd y Cyngor.
- Dylid cynnwys gwybodaeth am y darlunydd/dylunydd os yw'n newydd i gynlluniau grant y Cyngor Llyfrau.
- Os cyflwynir cais ar gyfer llyfr stori-a-llun, rhaid anfon copi o'r stori gyfan, mewn ffurf mor orffenedig â phosib.
- Yn achos deunydd arall, dylid anfon enghraifft o'r testun os yn bosib, neu o leiaf ddisgrifiad mor fanwl â phosib o'r hyn a fwriedir.
- Dylid nodi ar y ffurflen gais faint o luniau/ffotograffau y bwriedir eu comisiynu neu faint y bwriedir talu hawlfraint amdanynt, a rhoi amcan o batrwm y llyfr o ran y berthynas rhwng y lluniau a'r testun.
- Dylid anfon sampl o'r ffont y bwriedir ei defnyddio.
- Dylid anfon 1 agoriad gorffenedig, yn cynnwys lluniau lliw, wedi ei ddylunio ynghyd â rhai brasluniau i ddangos maint ac edrychiad y gwaith gorffenedig.
- Ystyrir ceisiadau yng nghyfarfodydd yr Is-bwyllgor sy'n trafod ceisiadau yn benodol. Cynhelir cyfarfodydd yn rheolaidd. Hysbysir y cyhoeddwr o'r union ddyddiadau ymlaen llaw ac mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar gael ar wefan y Cyngor yn ogystal.



- Mewn achosion eithriadol gellir ystyried ceisiadau rhwng cyfarfodydd a'u cadarnhau yn y cyfarfod ffurfiol canlynol.
- Os cynigir grant, gwneir hynny yn unol â'r amodau cyffredinol (Adran B isod), yn ogystal ag unrhyw amodau arbennig a bennir yn achos cais unigol am arian A Gweledol.
Disgwylir i bob ymgeisydd ymrwymo i'w derbyn wrth gyflwyno cais.

6 TALU'R GRANTIAU DAN GYNLLUN A

Bydd dau daliad. Yn achos y grantiau mwyaf gellir gwneud cais am dri thaliad.

Bydd angen i'r cyhoeddwr ddarparu copïau o anfonebau er mwyn hawlio'r taliad olaf.

Telir union gost y gwaith hyd at y grant a gynigiwyd. Os yw'r cyfanswm yr anfonebwyd amdano yn llai na'r cynnig gostyngir yr ail daliad. Ni thelir mwy na chyfanswm y grant a gynigiwyd.

7 GRANTIAU ERAILL

- Caniateir i gyhoeddwr sy'n derbyn cyllideb Arian B ddefnyddio cyfran o'r arian ar gyfer taliadau cymharol fychan am ddeunydd gweledol (hyd at gyfanswm o tua 10% o'r gyllideb).
- Yn achos grant a gynigir o'r gyllideb Arian B, bydd y cyhoeddwr yn talu'r darlunydd/ ffotograffydd/ dylunydd yn unol â threfn y cynllun hwnnw.
- Noder y gellir cynnwys symiau hyd at £1,500 tuag at ddarluniau/ ffotograffau o fewn ceisiadau am grant cyhoeddi i lyfrau unigol.

8 MONITRO A GWERTHUSO'R GWAITH A GEFNOGWYD

Bydd Cyngor Llyfrau Cymru'n gofyn am ffigurau gwerthiant ar gyfer pob llyfr a gefnogir gan y Grant Cyhoeddi yn y dull arferol.

Yn achos y cyhoeddwr rhaglen, bydd eu holl lyfrau grant yn cael eu cloriannu'n flynyddol.

Cymerir y ffactorau hyn i ystyriaeth wrth gloriannu ceisiadau pellach gan yr un darlunydd / ffotograffydd / dylunydd.

B AMODAU CYFFREDINOL

- 1 Cynigir y grant ar sail y wybodaeth yn y cais, ac mewn unrhyw ohebiaeth atodol. Ceidw Cyngor Llyfrau Cymru'r hawl i ailystyried y grant mewn achosion lle nad yw'r gwaith a gynhyrchir yn cyfateb i'r manylion a roddir ar y ffurflen gais.
- 2 Rhaid i'r sawl sy'n derbyn grant gydymffurfio ag unrhyw amodau a gofynion ychwanegol a nodir yn y cynnig grant ffurfiol neu mewn unrhyw lythyr eglurhaol.
- 3 Os na chyflenwir y dibenion y cynigiwyd y grant ar eu cyfer mewn da bryd, neu os na chydymffurfir â'r amodau perthnasol, gall Cyngor Llyfrau Cymru fynnu fod y derbynnydd (drwy'r cyhoeddwr) yn dychwelyd y cyfan neu ran o unrhyw grant allai fod wedi cael ei dalu.



- 4 Pan roddir grantiau Cynllun A ar gyfer deunydd gweledol a dylunio, bydd disgwyl i'r cyhoeddwr ddarparu copïau o'r anfonebau am y gwaith i brofi'r gwariant.
- 5 Mae'r holl daliadau o'r gronfa hon yn ychwanegol at unrhyw daliadau breindal (os oes rhai) a nodir yn y cytundeb cyhoeddi rhwng y cyhoeddwr a'r darlunydd/ffotograffydd/ dylunydd.
- 6 Yn achos taliadau Cynllun B, dylai'r darlunydd/ffotograffydd/dylunydd dderbyn unrhyw daliad a hawliwyd ar ei gyfer oddi wrth y Cyngor Llyfrau o dan y cynllun o fewn mis i'r taliad gyrraedd y cyhoeddwr.
- 7 Ni all yr un darlunydd/ffotograffydd/dylunydd dderbyn cyfanswm o fwy na £15,000 mewn un flwyddyn ariannol o'r gronfa ar gyfer awduron a darlunwyr /ffotograffwyr/ dylunwyr.
- 8 Oni bydd cyfrol yn cael ei chyhoeddi oherwydd amgylchiadau'r awdur, bydd gan ddarlunydd/dylunydd y gyfrol hawl i gael eu talu am y gwaith y maen nhw wedi'i gwblhau.
- 9 Oni bydd cyfrol yn cael ei chyhoeddi oherwydd bod **cais am grant cyhoeddi unigol wedi'i wrthod** gan yr Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi, ni ofynnir i'r cyhoeddwr ad-dalu'r taliadau a dalwyd i'r darlunydd/dylunydd/ffotograffydd am waith sydd eisoes wedi'i gwblhau.
- 10 Disgwylir i lyfr a anelir at ddysgwyr sy'n derbyn grant gan y Cyngor gydymffurfio â safonau iaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Felly, rhaid i'r llyfrau fynd trwy Dîm Golygyddol CLLC i'w golygu i'r safonau hynny, yn ogystal â'u prawf ddarllen. O fynd trwy'r broses hon bydd y llyfr yn gallu dwyn brand cyfres Amdani a chael ei hyrwyddo trwy rwydwaith y Ganolfan. Dylai'r cyhoeddwr ymgynghori â Thîm Dylunio CLLC er mwyn sicrhau bod y dyluniad yn cydymffurfio â'r gyfres.
- 11 Disgwylir i bob llyfr gwreiddiol sy'n derbyn grant gan y Cyngor gael ei gyhoeddi fel e-lyfr yn ogystal, a'i osod ar ffolio.cymru ar yr un pryd a'r cyhoeddiad papur neu o fewn chwe mis, fan bellaf.

Ceir ffurflenni cais a gwybodaeth bellach oddi wrth:

**Dr Lynne Williams
Adran Datblygu Cyhoeddi
Cyngor Llyfrau Cymru
Castell Brychan
Aberystwyth
Ceredigion, SY23 2JB
Ffôn: 01970 629554**

E-bost: grantiau.cymraeg@llyfrau.cymru

**MAE'R DDOGFEN HON HEFYD AR GAEL YN SAESNEG /
AN ENGLISH-LANGUAGE VERSION OF THIS DOCUMENT IS ALSO AVAILABLE**